

**Rhyddid i ddefnyddio'r
Gymraeg:**
Gwybodaeth i gyflogwyr

Freedom to use Welsh:
Information
for employers



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Cynnwys

Contents

1

2 Ynglŷn â'r Comisiynydd
About the Commissioner

4 Pwerau'r Comisiynydd
The Commissioner's Powers

8 Gweithdrefnau'r Comisiynydd
The Commissioner's procedures

14 Cysylltu â'r Comisiynydd
Contacting the Commissioner

Ynglŷn â'r Comisiynydd

2

Meri Huws yw Comisiynydd y Gymraeg. Crëwyd y rôl gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gyda'r prif nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Mae gwasanaethau'r Comisiynydd yn annibynnol, yn ddiduedd ac yn rhad ac am ddim i'w defnyddio.

Un o brif gyfrifoldebau'r Comisiynydd yw sicrhau bod sefydliadau'n glynu at eu dyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd. Fel rhan o hyn, mae gan y Comisiynydd bwerau i ymchwilio i gwynion gan unigolion sydd wedi methu â derbyn gwasanaeth Cymraeg gan sefydliadau sy'n disgyn o fewn ei hawdurdodaeth.

Mae gan y Comisiynydd hefyd bŵer i ymchwilio i honiadau o ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg gydag eraill yng Nghymru. Gall hyn ddigwydd mewn amryw o sefyllfaoedd ac nid oes rhaid i sefydliad neu berson fod o fewn awdurdodaeth uniongyrchol y Comisiynydd iddi allu ymchwilio i honiad o ymyrraeth.

Mae'r llyfryn hwn yn darparu gwybodaeth i sefydliadau a chyflogwyr am bŵer y Comisiynydd i ymchwilio i honiadau o ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg.



About the Commissioner

3

Meri Huws is the Welsh Language Commissioner. The role was created by the Welsh Language (Wales) Measure 2011 with the principal aim of promoting and facilitating the use of the Welsh language.

The Commissioner's services are independent, impartial and free of charge.

One of the Commissioner's main responsibilities is to ensure that organizations adhere to their legal duty to provide Welsh language services to the public. As part of this the Commissioner has powers to investigate complaints from individuals who have failed to receive a Welsh language service from organizations that fall within her jurisdiction.

The Commissioner also has power to investigate allegations of interference with the freedom of individuals to use the Welsh language with others in Wales. This can occur in a variety of situations and the organization or person does not have to fall within the Commissioner's direct jurisdiction for her to be able to investigate an allegation of interference.

This booklet provides information to organizations and employers about the Commissioner's power to investigate allegations of interference with an individual's freedom to use the Welsh language.

Pwerau'r Comisiynydd

4

Sefydlodd Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 hawliau a rhyddid newydd i ddefnyddwyr y Gymraeg. Un o'r rheiny yw'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gydag eraill yng Nghymru.

Mae hyn yn golygu bod gan unigolion ryddid cyfreithiol i ddefnyddio'r iaith, ar lafar neu'n ysgrifenedig, gydag unigolion eraill sydd hefyd eisiau'r defnyddio'r Gymraeg yng Nghymru.

Gall unigolion sy'n teimlo bod sefydliad neu berson wedi ymyrryd â'u rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg ofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i'w hachos.

Mae'r mathau o sefyllfaoedd y gall y Comisiynydd ymchwilio iddynt yn cynnwys:

- Rhywun yn datgan na ddylai unigolyn ddefnyddio'r Gymraeg, ar lafar neu'n ysgrifenedig, gyda rhywun arall sydd hefyd yn dymuno defnyddio'r iaith;
 - Rhywun yn datgan y bydd unigolyn yn dioddef anfantais am ddefnyddio'r Gymraeg gyda rhywun arall;
 - Rhywun yn achosi anfantais i unigolyn am ddefnyddio'r Gymraeg gyda rhywun arall.
-

The Commissioner's powers

5

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 established new rights and freedoms for Welsh language users. One of these is the freedom to use the Welsh language with others in Wales.

This means that individuals have a legal right to use the language, either verbally or in written form, with other individuals who also want to use the Welsh language in Wales.

Individuals who feel that an organization or person has interfered with their freedom to use Welsh may ask the Commissioner to investigate their case.

The kinds of situations the Commissioner may investigate include:

- Someone stating that an individual should not use Welsh, verbally or in written form, with someone else who also wishes to use the language;
 - Someone stating that an individual will suffer a disadvantage for using the Welsh language with someone else;
 - Someone causing an individual to be at a disadvantage for using the Welsh language with someone else.
-

Pwerau'r Comisiynydd

6

Gall ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg ddigwydd mewn amryw o wahanol sefyllfaoedd. Yn wahanol i gwynion am fethu â glynu at safonau'r Gymraeg neu i weithrediad cynllun iaith Gymraeg, nid oes rhaid i ymyrraeth ddigwydd o fewn y sector cyhoeddus i'r Comisiynydd allu ymchwilio.

Yn ogystal â hynny, nid oes rhaid i sefydliad ddod o fewn awdurdodaeth uniongyrchol y Comisiynydd er mwyn iddi allu ymchwilio i honiad o ymyrraeth yn ei erbyn.

Gall cwmni neu unigolyn fod yn gyfrifol am ymyrryd â rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Disgwyliwr i sefydliadau a phersonau eraill barchu rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gydag eraill heb ofn. Gall y Comisiynydd gynnig cyngor a chymorth ymarferol i gyflogwyr ar sut i gefnogi staff sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd a gyda chwsmeriaid.

The Commissioner's powers

7

Interference with an individual's freedom to use Welsh can happen in a variety of situations. Unlike complaints about failure to adhere to Welsh language standards or to implement a Welsh language scheme, interference does not have to take place within the public sector for the Commissioner to investigate.

An organization does not have to fall within the Commissioner's direct jurisdiction for her to be able to investigate an allegation of interference against it.

A company or an individual may be responsible for interfering with the freedom to use Welsh.

Organizations and other persons are expected to respect the freedom of individuals to use the Welsh language with others without fear. The Commissioner can offer practical advice and support to employers on how to support their staff who wish to use the Welsh language with each other and with customers.

Gweithdrefnau'r Comisiynydd

8

Yn dilyn derbyn cais gan unigolyn, bydd y Comisiynydd yn gwirio bod y cais yn un y gall ei ystyried a'i fod yn ddilys yn unol â'r gyfraith.

Y Comisiynydd fydd yn penderfynu a fydd yn ymchwilio i'r cais ai peidio.

Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i'r cais bydd yn mynd ati i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth gan yr ymgeisydd a gan y sefydliad neu'r person sy'n gyfrifol am yr ymyrraeth honedig.

Mae gan sefydliadau a phersonau hawl i ymateb i'r honiadau yn eu herbyn. Bydd enw a manylion cyswllt aelod o dîm Ymchwilio a Gorfodi'r Comisiynydd yn cael ei roi i chi ar ddechrau'r broses. Os hoffech wirio rhywbeth neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ar unrhyw bwynt, ysgrifennwch neu anfonwch e-bost at yr aelod staff.

The Commissioner's procedures

Following a request from an individual, the Commissioner will check that the request is one which she is able to consider and that it is legally valid.

The Commissioner will decide whether to investigate the request or not.

If the Commissioner decides to investigate the request, she will gather information and evidence from the applicant and from the organization or person responsible for the alleged interference.

Organizations and other persons have a right to respond to the allegations against them. You will be given the name and contact details of a member of the Commissioner's Investigation and Enforcement team at the beginning of the process. If at any stage you would like to check something or if you need more information, write or send an e-mail to the member of staff.

Gweithdrefnau'r Comisiynydd

10

Cam 1

Ymgynghori

Bydd copi o'r cais yn cael ei rannu â chi er mwyn rhoi cyfle i chi ymateb i'r honiadau yn eich erbyn.

Bydd swyddogion y Comisiynydd yn gofyn am wybodaeth yn ysgrifenedig gennych o fewn amserlen benodol. Os nad yw'n bosibl i chi ymateb o fewn yr amserlen rhowch wybod i'r aelod staff cyn gynted â phosibl.

Bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn cael ei rhannu â'r ymgeisydd.

Cam 2

Dod i benderfyniad

Bydd y Comisiynydd yn ystyried yr holl wybodaeth a thystiolaeth berthnasol er mwyn dyfarnu a fu ymyrraeth. Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod ymyrraeth wedi digwydd, bydd hefyd yn rhoi ei barn ar yr ymyrraeth.

Bydd drafft o'r dyfarniad yn cael ei rannu â chi cyn ei gyhoeddi'n derfynol. Bydd unrhyw sylwadau ar y dyfarniad drafft yn cael eu hystyried.

Yn dilyn hynny, bydd y dyfarniad terfynol yn cael ei rannu gyda chi a'r ymgeisydd.

The Commissioner's procedures

11

Stage 1

Consultation

A copy of the request will be shared with you in order to give you an opportunity to respond to the allegations against you.

The Commissioner's officers will request written information from you within a specific timeframe. If it is not possible for you to respond within the timeframe given, please inform the member of staff as soon as possible.

The information you provide will be shared with the applicant.

Stage 2

Reaching a decision

The Commissioner will consider all the relevant information and evidence in order to determine whether interference has taken place. If the Commissioner determines that interference has taken place, she will also give her opinion on the interference.

A draft of the determination will be shared with you before it is finally published. Any observations on the draft determination will be considered.

After that, the final determination will be shared with you and with the applicant.

Gweithdrefnau'r Comisiynydd

12

Cam 3

Cynghori

Mae gan y Comisiynydd ddisgresiwn i roi cyngor ar yr ymyrraeth honedig, neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ymyrraeth honedig, i chi, yr ymgeisydd neu i unrhyw berson arall.

Nid yw hyn yn dibynnu ar ganlyniad yr ymchwiliad. Felly gall y Comisiynydd roi cyngor o'r fath hyd yn oed os yw'n penderfynu na fu ymyrraeth, neu fod cyfiawnhad dros yr ymyrraeth.

Cam 4

Paratoi adroddiad

Mae dyletswydd ar y Comisiynydd i rannu copi o adroddiad ei hymchwiliad â Gweinidogion Cymru. Mae gan y Comisiynydd hefyd hawl i gyhoeddi copi o'r adroddiad.

Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu na wnaethoch ymyrryd â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg, ni fyddwch yn cael eich enwi yn yr adroddiad.

The Commissioner's procedures

13

Stage 3

Advice

The Commissioner has discretion to give advice on the alleged interference, or any matter relating to the alleged interference, to you, the applicant or any other person.

This does not depend on the result of the investigation. Therefore the Commissioner may provide such advice even if she decides that no interference took place, or that there was justification for the interference.

Stage 4

Preparation of a report

The Commissioner has a duty to share a copy of the investigation report with Welsh Ministers. The Commissioner also has a right to publish a copy of the report.

If the Commissioner determines that you did not interfere with an individual's freedom to use Welsh, you will not be named in the report.

Cysylltu â'r Comisiynydd

14

Os hoffech dderbyn gwybodaeth bellach am ryddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg cysylltwch â'r Comisiynydd trwy ffonio **0845 603 3221** neu e-bostio **post@comisiynyddygyymraeg.cymru**

Gallwch hefyd ysgrifennu i:
Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Contacting the Commissioner

15

If you would like to receive further information about the freedom of individuals to use the Welsh language, please contact the Commissioner by phoning **0845 603 3221** or e-mailing to post@welshlanguagecommissioner.wales

You may also write to:

Welsh Language Commissioner

Market Chambers

5–7 St Mary Street

Cardiff CF10 1AT



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner